CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2014/15

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dylan Wyn Rees**
**Grŵp: Plaid Cymru – the Party of Wales** **Ward: Canolbarth Môn**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | [1]**Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 10 (91%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 8 (100%) |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 (80%) |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) (Cadeirydd) | 3 (100%) |
| Panel Rhiant Corfforaethol | 4 (100%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 3 cyfarfod) a'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyngor Iechyd Cymuned – Cyfarfodydd Pwyllgor Lleol Ynys Môn a'r Cyngor Llawn (o fis Tachwedd 2014) | 3 | 2 (66%) |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Yn ogystal ag eistedd ar y pwyllgorau uchod byddaf hefyd yn rheolaidd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill yn fy ward, yn cynnwys:

Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned – Rwyf yn Gynghorydd Tref ar Gyngor Tref Llangefni (mynychais 9 allan o 11 o gyfarfodydd – 83%) ac rwyf hefyd wedi cymryd y prif gyfrifoldeb ymysg tri Chynghorydd Canolbarth Môn am fynychu Cyngor Cymuned Bodffordd (mynychais 10 allan o 11 o gyfarfodydd – 91%).

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Rwyf ar brydiau yn mynychu cyfarfodydd o Gyngor Cymuned Gwalchmai, Bryngwran a Llanddyfnan er mai fy nghyd Gynghorwyr Canolbarth Môn yw'r prif gynrychiolwyr ar y pwyllgorau hyn.

Cyfarfodydd Cyrff Llywodraethu Ysgolion - Rwy'n llywodraethwr ysgol yng Nghanolfan Addysg y Bont ac yn Is-gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd.

Rwy'n aelod o Bartneriaeth Tref Llangefni a Banc Bwyd Gwledig Ynys Môn. Rwyf hefyd yn cael cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gydag uwch gynrychiolwyr o Gymunedau'n Gyntaf Môn. Y llynedd fe'm penodwyd hefyd i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru sydd un o 8 pwyllgor gwarchod statudol gan y GIG yng Nghymru sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd a chleifion yn y maes gofal iechyd. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi beirniadu Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn gyhoeddus am y diffyg ymgynghoriad pan gyhoeddodd ei benderfyniad i atal gwasanaethau bydwragedd dros dro yn Ysbyty Glan Clwyd. O ganlyniad, euthum i arsylwi'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ar 12 Mawrth i drafod y cynigion cynhennus hyn.

Yn ogystal â mynychu amrywiol gyfarfodydd, mae gennyf lwyth gwaith sylweddol wrth i mi geisio gwneud gwaith ar ran etholwyr. Rhai esiamplau o'r mathau o achosion y byddaf yn delio yn rheolaidd â hwy yw:

- Cynllunio – gwrthwynebiadau i geisiadau.
- Tai – cyngor a chymorth ynglŷn â'r polisi gosod.
- Anghydfod rhwng cymdogion.
- Hamdden – pryderon ynglŷn â'r bygythiad i Glwb Golff Llangefni a'r cyrtiau sboncen ym Mhlas Arthur.
- Eiddo – cwynion ynglŷn â pheryglon sy'n deillio o eiddo nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach.
- Priffyrdd – cwynion/pryderon ynglŷn â pharcio, tyllau yn y ffordd, gyrru.
- Gwasanaethau Cymdeithasol – anawsterau gyda mynediad brys ar gyfer preswylwyr mewn llety gwarchod.

Er mwyn i mi fod ar gael i fy etholwyr rwyf wedi creu fy nhudalen Facebook fy hun. Ynghyd â fy nau Gyd-gynghorydd Canolbarth Môn rwyf hefyd wedi dechrau cynnal cymorthfeydd yn Llangefni.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fy nod cyffredinol fel Cynghorydd yw ceisio gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r bobl sydd wedi fy ethol i'w gwasanaethu. Rwyf ar hyn o bryd yn rhan o ddwy fenter leol, a gobeithiaf y byddant yn dod a buddion parhaol i'r gymuned:

- Yn ddiweddar cefais fy mhenodi yn Gadeirydd Grŵp Prosiect Parc Sglefrio Ynys Môn. Mae'r grŵp wedi ei sefydlu er mwyn darparu cyfleuster sglefrio newydd yn Llangefni ar ôl i'r hen barc sglefrio gael ei ddymchwel. Mae hwn yn brosiect tymor hir ac os bydd yn llwyddiannus, bydd pobl ifanc leol yn elwa yn fawr ohono.

- Rwy’n aelod o’r Pwyllgor sydd newydd ei ffurfio ar gyfer Parc Plant Gwalchmai. Mae angen cyllid brys ar y parc ac roedd perygl y byddai’r parc yn gorfod cael ei gau. Ymysg nifer o weithgareddau codi arian sy’n digwydd, byddaf yn cymryd rhan yng Ngŵyl Gerdded Menter Môn ar 24 Mai 2015 sy’n daith gerdded noddedig dros bellter o 26.2 milltir.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu’r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi’i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Diogelu | Ebrill 2014 |
| Seminar ar Ddiwygio Llywodraeth Leol | Medi 2014 |
| Ychwanegu Gwerth i Sgriwtini | Medi 2014 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Hydref 2014 |
| Seminar ar y Polisi Gosod Tai | Ionawr 2015 |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Mawrth 2015 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Fel y gallaf wasanaethu fy nghymuned leol yn y ffordd orau rwy'n cydnabod y bydd yn rhaid i mi ymgysylltu cymaint ag sy’n bosibl yn y gymuned. O ganlyniad rwyf wedi mynychu yn rheolaidd wahanol ddigwyddiadau ymgynghori, diwylliannol, cymdeithasol, cymunedol fel e.e.

**Digwyddiadau Diwylliannol** – Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Ffermwyr Ifanc, Sioe Gerdd Alleni Môn ym Miwmares, Arddangosfeydd yn Oriel Môn, digwyddiad lansio Geomon, Cymanfa Ganu ym Mryngwran.

**Digwyddiadau Cymdeithasol a Chymunedol** – Carnifal Llangefni, Nosweithiau Cwis Talwrn, Diwrnod Hwyl Bryngwran, Cyngherddau Nadolig yng Nghanolfan Addysg y Bont, Ysgol Gymuned Bodffordd, Capel y Gad, Sant Cyngar, Neuadd Bodwrog. Gwobrau Ieuenctid Ynys Môn, gwasanaeth sefydlu ficer newydd Llangefni.

**Digwyddiadau Ymgynghori** – cyfarfod cydranddeiliaid 2 Sisters, ‘Faith in Action’ (a gynhaliwyd gan yr Eglwys Gatholig), Ffordd Gyswllt Llangefni, Digwyddiad Ynni Cymunedol yn Neuadd y Dref Llangefni.

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dylan Rees** | **Ebrill 2015** |